Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
Welsh Parliament
**Public Accounts Committee**

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol

Llywodraeth Cymru

---

14 Mai 2020

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol

**Covid-19**

Hoffwn ddiolch yn ffurfiol, ynghyd â mynegi gwerthfawrogiad ar ran y Pwyllgor, i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 4 Mai yn ystod y cyfnod eithriadol o brysur a digynsail hwn.

Fe wnaethoch chi gytuno i anfon peth gwybodaeth ychwanegol ac fe wnaeth yr Aelodau hefyd godi nifer o faterion eraill wrth i ni drafod y dystiolaeth a gafwyd, ac mae'r manylion i'w gweld isod.

- Cytunoch i ysgrifennu atom ynghylch rôl a chylch gwaith y Pwyllgor Gweithredol Covid-19;
- Cytunoch i ysgrifennu atom ynghylch y prosesau a'r cynigion y mae'r Uned Archwilio Fewnol wedi'u cynnal/yn bwriadu eu cynnal ym mlynyddoedd ariannol 19/20 ac 20/21; a
- Chytunoch i anfon manylion data yr arolwg ymateb i argyfwng, pan fyddant wedi'u dadansoddi ac ar gael.

Yn ogystal â hyn, roedd yr Aelodau'n pryderu am yr ymateb i gwestiwn Jenny Rathbone ynghylch yr 13,000 o lythyrau gwarchod a anfonwyd i gyfeiriadau anghywir drwy gamgymeriad. Er ein bod yn deall bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ymchwilio i'r mater hwn ac nad oedd llawer o amser i gynhyrchu'r llythyrau o'r gronfa ddata, roedd maint y camgymeriad yn peri cryn bryder. Byddwn yn croesawu copi o adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth pan fydd ar gael.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

Yn olaf, a fydd modd cael copi neu linc i'r omniograff trefniadaeth tirlun y cyfeirioch ato wrth drafod Fframwaith Llywodraethu diwygiedig Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Nick Ramsay MS**
**Chair**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.